

# **Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**HSS(2)-17-06(p.1)**

**Dyddiad y cyfarfod: Dydd Iau 30 Tachwedd 2006**

**Lleoliad: Ystafell Pwyllgor 2, Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Teitl: Adroddiad y Gweinidog**

## **Agenda**

1. Profion BSE yn cymryd lle'r Rheol Dros Dri Deg Mis
2. Penodi Aelod Bwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) i Gymru
3. Rhaglen Adsefydlu Bryn-y-Neuadd
4. Pwyllgorau Cynghori Statudol i'r Proffesiynau Iechyd
5. Ehangu Cynllun Grantiau'r Sector Gwirfoddol Her Iechyd Cymru
6. Cyfarwydddebau Datblygu a Chomisiynu Gwasanaethau ar gyfer cyflyrau anadlol
7. Amserlen ar gyfer gwerthuso ymhellach Therapiau Addasu Clefydau ar gyfer sglerosis ymledol
8. £4.9 miliwn ar gyfer cyfnod cyntaf yr ysbyty plant
9. Y diweddaraf am barcio a ffonau
10. Y diweddaraf am y defnydd o gyfleusterau gwesty ar gyfer cleifion sy'n cael trawsblaniadau mêr esgyrn
11. Y diweddaraf am ganllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE) ar sut i drin Clefyd Alzheimer
12. Rhoi organau: hawliau newydd i roddwyr
13. Cyngor Da: Iechyd Da

## **1. Profion BSE yn Cymryd lle'r Rheol Dros Dri Deg Mis**

1.1 Ar 7 Tachwedd 2005, disodlwyd Rheol Dros Dri Deg Mis (OTM) y DU, a oedd yn atal anifeiliaid hŷn rhag cyrraedd y gadwyn fwyd, gan drefn o brofion BSE ar gyfer gwartheg OTM a anwyd ar ôl 1 Awst 1996. Mae anifeiliaid a anwyd cyn 1 Awst 1996 yn cael eu gwahardd o'r gadwyn fwyd yn barhaol.

1.2 Rhaid i ladd-dai gael eu cymeradwyo'n ffurfiol gan y Gwasanaeth Hylendid Cig (MHS) yn dilyn asesiad trylwyr cyn y gallan nhw brosesu gwartheg OTM a anwyd ar ôl 1 Awst 1996 i'w bwyta gan bobl. Hyd yma, mae cyfanswm o 62 o ladd-dai ledled Prydain wedi'u cymeradwyo gan yr MHS. Mae hyn yn cynnwys dau ladd-dŷ yng Nghymru - yng Nghaernarfon a Hwlfordd (mae lladd-dŷ Caernarfon yn nwylo'r derbynwyr ac nid yw ar waith ar hyn o bryd). Penderfyniad masnachol i weithredwyr lladd-dai yw un ai i wneud cais am gymeradwyaeth gan yr MHS ai peidio.

1.3 Mae dros 275,000 o anifeiliaid OTM wedi'u lladd yn y DU ers i brofion BSE gymryd lle'r rheol OTM. Bu tri achos cadarnhaol hyd yma (nid yw hyn yn annisgwyl o ystyried nifer yr anifeiliaid a brofwyd). Anfonwyd yr holl anifeiliaid perthnasol i'w lladd, ynghyd â'r anifail o'i flaen a'r ddau anifail ar ei ôl ar y llinell ladd, yn unol â deddfwriaeth BSE. Gweithredwyd yr holl fesurau angenrheidiol i sicrhau na lwyddodd unrhyw ddarn o'r anifeiliaid hyn i gyrraedd y gadwyn fwyd.

1.4 Bu un achos o anifail OTM yn cyrraedd y gadwyn fwyd heb gael ei profi ar gyfer BSE. Digwyddodd hyn yng Ngogledd Iwerddon fis Hydref ac mae ymchwiliadau i'r amgylchiadau'n parhau. Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd wedi tynnu'r cig yn ôl ac wedi datgan bod risg isel iawn i iechyd y cyhoedd yn sgil bwyta'r cig, gan fod y deunydd risg penodedig wedi'i dynnu o'r carcass.

## **2. Penodi Aelod Bwrdd Yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) i Gymru**

2.1 Yn dilyn ymddiswyddiad Mr Alan Gardner yn yr haf fel Aelod Bwrdd yr ASB i Gymru, mae'r broses o recriwtio Aelod newydd i'r Bwrdd ar waith. Bwriad y nodyn hwn yw rhoi adroddiad cryno ar y cynnydd a wnaed.

2.2 Hysbysebwyd y swydd, ynghyd â swyddi eraill a fydd yn codi ar y Bwrdd yn y dyfodol – gan gynnwys swydd y Dirprwy Gadeirydd – yn y wasg genedlaethol (gan gynnwys y Western Mail). Mae'r dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau bellach wedi bod ac mae'r gwaith o dynnu rhestr fer o ymgeiswyr yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.

2.3 Bwriedir cynnal cyfweiliadau ar gyfer swydd Dirprwy Gadeirydd yn gyntaf. Disgwylir eu cynnal rywbryd fis Rhagfyr. Bydd y cyfweiliadau ar gyfer swydd Cymru yn dilyn fis Ionawr 2007. Disgwyliaf allu ysgrifennu at lefarwyr lechyd gydag argymhellion mewn perthynas â'r penodiadau hyn cyn gynted â phosibl ar ôl cwblhau'r cyfweiliadau.

### **Swydd Prif Weithredwr yr ASB**

2.4 Ymunodd Mr John Harwood â'r Asiantaeth Safonau Bwyd fis Ebrill 2006 fel Prif Weithredwr dros dro yn dilyn ymddeoliad Dr Jon Bell. Er i broses recriwtio agored gael ei chynnal yn ystod yr haf, ni phenodwyd neb. Dan yr amgylchiadau, mae Mr Harwood wedi cytuno parhau fel Prif Weithredwr. Yn dilyn caniatâd Comisiynydd y Gwasanaeth Sifil, mae penodiad Mr Harwood wedi'i ymestyn am gyfnod o hyd at ddwy flynedd o fis Ebrill 2006. Bydd yr Asiantaeth maes o law yn cynnal cystadleuaeth agored bellach er mwyn recriwtio ar sail barhaol. Bydd unrhyw benodiad yn cael ei wneud gan yr Asiantaeth yn amodol ar gymeradwyaeth y Cynulliad a'r Gweinyddiaethau Datganoledig eraill.

### **3. Rhaglen Adsefydlu Bryn-y-Neuadd**

3.1 Dylai'r Pwyllgor nodi na fydd ein huchelgais wreiddiol o gwblhau adsefydlu gofal cymdeithasol o Ysbyty Bryn y Neuadd erbyn diwedd mis Rhagfyr 2006 yn cael ei chyflawni. Erbyn canol mis Medi 2006, roedd 58 o bobl wedi'u hadsefydlu i drefniadau gofal cymdeithasol gan awdurdodau lleol, ac roedd 36 o bobl eraill yn aros i gael eu hadsefydlu. Yn ystod y misoedd diwethaf, mae Grŵp Prosiect Adsefydlu Gogledd Cymru (sy'n dwyn pawb â buddiant ynghyd ac yn rheoli'r rhaglen adsefydlu) wedi cynnal adolygiad llawn o'r rhaglenni adsefydlu sydd ar ôl. Yn dilyn yr adolygiad hwnnw, mae bellach yn glir y bydd yna ryw faint o oedi wrth gwblhau'r rhaglen adsefydlu gofal cymdeithasol oherwydd oedi i'r gwaith o adeiladu llety amgen a materion yn ymwneud â dewisiadau unigol.

3.2 O'r 36 o bobl sy'n weddill, dylai saith gael eu hadsefydlu erbyn diwedd mis Rhagfyr 2006; dylai 21 gael eu hadsefydlu erbyn diwedd mis Mehefin 2007; a dylai pump gael eu hadsefydlu erbyn diwedd mis Medi 2007. Ni fydd y tri unigolyn olaf yn cael eu hadsefydlu tan chwarter cyntaf 2008-09. Y rheswm am hyn yw bod yr unigolion wedi mynegi awydd cryf i aros yn agos at safle cyfredol Bryn-y-Neuadd ac nid ydynt am symud i unrhyw le arall. Mae'r gwaith o'u hadsefydlu felly'n gysylltiedig â'r broses o gau'r ysbyty ac ailddatblygu'r safle.

3.3 Er bod hyn yn newyddion siomedig, nid yw'r oedi i'w briodoli i unrhyw ddiffyg cyllid gan Lywodraeth y Cynulliad neu unrhyw ddiffyg ymdrech neu ymroddiad gan y partneriaid sy'n rheoli'r rhaglen adsefydlu. Y rheswm am yr oedi yw'r problemau arferol a gysylltir â gwaith adeiladu newydd, fel dod o hyd i safleoedd addas, sicrhau caniatâd cynllunio, problemau cynllunio ac anawsterau sy'n codi pan fo'r gwaith adeiladu'n dechrau.

#### **4. Pwyllgorau Cynggori Statudol i'r Proffesiynau Iechyd**

4.1 Fe aeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ati'n ddiweddar i ymgynghori a ddylai naw pwyllgor cynggori statudol i'r proffesiynau iechyd barhau i gael eu rheoli gan Lywodraeth y Cynulliad, neu a ddylent gael eu rheoli gan Ganolfan Iechyd Cymru, Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad.

4.2 Ymgynghorwyd ar y ddogfen rhwng mis Mehefin ac Awst 2006, ac fe'i cyhoeddwyd ar wefan Llywodraeth y Cynulliad. Gellir ei darllen trwy ddilyn y ddolen isod.

<http://new.wales.gov.uk/topics/health/ocmo/consultations/committees?lang=cy>

4.3 Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn ofalus, penderfynais gadw at y trefniadau cyfredol. Bydd hyn yn cadw'r llinellau atebolrwydd a'r trefniadau ysgrifenyddiaeth cyfredol sy'n bwysig i lawer o weithwyr iechyd proffesiynol yng Nghymru.

4.4 Fodd bynnag, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau i gynnal yr adolygiad o'r pwyllgorau cynggori a oedd i fod i gael ei gynnal yn ddiweddarach eleni. Bydd hyn yn cynnig cyfle i wella effeithiolrwydd y pwyllgorau cynggori, gan fanteisio ar awgrymiadau a wnaed yn ystod yr ymgynghoriad.

## 5. Ehangu Cynllun Grantiau'r Sector Gwirfoddol Her Iechyd Cymru

5.1 Mae Her Iechyd Cymru yn cyllido 19 o sefydliadau gwirfoddol cenedlaethol i ddarparu amrywiaeth o brosiectau tan 31 Mawrth 2008. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **Living Streets:** Mae Cymru'n Cychwyn Cerdded (cynllun sy'n cael ei dreialu yn Ysbyty'r Tywysog Siarl) yn hyrwyddo cerdded ymysg pobl gyflogedig trwy eu hannog i gynnwys teithiau cerdded byr fel rhan o'u harferion bob dydd.
- **Sustrans Cymru:** Mae Rhaglen Teithio Byw Cymru'n ceisio cynyddu lefelau gweithgarwch corfforol trwy ei gwneud yn haws dewis ffyrdd cynaliadwy/egniol o deithio.
- **BTCV:** Mae Rhwydwaith y Gampfa Werdd yn hyrwyddo gweithgarwch corfforol trwy alluogi grwpiau iechyd statudol a gwirfoddol lleol i drefnu a hyrwyddo Campfeydd Gwyrdd.

5.2 Fis diwethaf, cytunais i ymestyn y cynllun am flwyddyn hyd 31 Mawrth 2008.

5.3 Bydd hyn yn cynorthwyo prosiectau i:

- Gryfhau'r partneriaethau sydd wedi cael eu meithrin dros y ddwy flynedd ddiwethaf.
- Nodi cyfleoedd lle gall sefydliadau'r sector gwirfoddol gydweithio ar flaenoriaethau cyffredin yn unol â chyfeiriad strategol Llywodraeth y Cynulliad.
- Datblygu cynlluniau cynaliadwyedd i sicrhau bod y gwaith yn parhau ar ôl y cyfnod cyllido.

5.4 Cytunais hefyd i ddechrau'r gwaith o adfywio'r cynllun ar gyfer cylch cyllido pellach. Caiff newidiadau i'r cynllun eu gwneud yn unol â pholisi Llywodraeth y Cynulliad, yn seiliedig ar ganfyddiadau o werthusiad annibynnol y cynllun ac ymgynghori â'r sector gwirfoddol.

## **6. Cyfarwyddebau Datblygu a Chomisiynu Gwasanaethau ar gyfer Cyflyrau Anadlol**

6.1 Cyhoeddwyd copi ymgynghorol o'r Cyfarwyddebau Datblygu a Chomisiynu Gwasanaethau ar gyfer Cyflyrau Anadlol ar 20 Hydref. Bydd y cyfnod ymgynghori'n dod i ben ar 12 Ionawr. Mae'r ddogfen yn rhan o gyfres o gyhoeddiadau strategol ar gyfer ailgynllunio maes gofal cyflyrau cronig, yn unol ag amcanion *Cynllun Oes*.

6.2 Mae'r Cyfarwyddebau wedi'u bwriadu ar gyfer y gymuned iechyd a gofal cymdeithasol – cynllunwyr, comisiynwyr a darparwyr gwasanaethau – yn ogystal â phobl sy'n byw gyda chyflyrau anadlol, y sector gwirfoddol, gofalywyr a rhwydweithiau cymorth ehangach. Maen nhw'n nodi nifer o gamau gweithredol allweddol i wella iechyd ac ansawdd bywyd pobl â chyflyrau anadlol. Maen nhw hefyd yn helpu i sicrhau bod gwasanaethau anadlol effeithiol yn cael eu darparu'n decach ledled Cymru yn unol â chanllawiau cenedlaethol ac arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Maen nhw hefyd yn ceisio hybu'r newidiadau cadarnhaol i ffordd o fyw sydd eu hangen i helpu i atal yr anhwylderau anadlol cronig hyn. Byddan nhw'n sylfaen i'r gwaith o gomisiynu a threfnu gwasanaethau i bobl â chyflyrau anadlol yng Nghymru, ac fe'u cefnogir gan waith pellach gan y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol i adolygu darpariaeth gwasanaethau anadlol ledled Cymru.

6.3 Cyfrannodd amrywiaeth eang o randdeiliaid allweddol at y gwaith o ddatblygu'r ddogfen hon, gan gynnwys gweithwyr iechyd proffesiynol a chynrychiolwyr o grwpiau cleifion. Bydd y broses ymgynghori cyhoeddus tri mis yn gyfle da i dderbyn mewnbwn eang ynglŷn â'r broses o gwblhau'r cyfarwyddebau anadlol, ac edrychwn ymlaen at dderbyn ymatebion i'r ymgynghoriad.

## **7. Amserlen ar gyfer Gwerthuso Ymhellach Therapiau Addasu Clefydau ar gyfer Sglerosis Ymledol**

7.1 Ers i mi adrodd i'r Pwyllgor ar 11 Mai 2006 ynglŷn â'r cyffuriau a oedd ar gael i gleifion MS, cyhoeddais ar 30 Hydref fod cyllid ychwanegol o £700,000 wedi'i ddyrannu i Gomisiwn Iechyd Cymru (HCW) i ateb y galw cynyddol am gyffuriau drud i drin cleifion o Gymru â sglerosis ymledol. Rhoddir yr arian ychwanegol i ysbytai sy'n trin cleifion MS o Gymru. Mae'r £700,000 yn ychwanegol i'r dyraniad blynyddol o £2.5 miliwn ar gyfer therapiau addasu clefydau (DMTs). Bydd hyn yn galluogi'r canolfannau rhagnodi a gomisiynwyd gan Gomisiwn Iechyd Cymru i ddechrau trin cleifion MS o Gymru a oedd yn anghymwys i dderbyn triniaeth ar sail asesiadau blaenorol, ac unrhyw gleifion newydd ar gyfer gweddill 2006-07.

7.2 Dyma'r cyffuriau therapiau addasu clefydau penodol a gefnogir gan Gynllun Rhannu Risgiau MS: -

- Copaxone
- Rebif 22
- Rebif 44
- Betaferon ac
- Avonex

7.3 Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ystyried nifer o opsiynau yn ofalus i helpu i ddatrys yr anawsterau cynyddol sy'n gysylltiedig â chyflenwi DMTs i gleifion MS yng Nghymru. I gyd-fynd â'r arian ychwanegol, mae Comisiwn Iechyd Cymru hefyd yn comisiynu adolygiad o'r dystiolaeth a'r gwaith ymchwil diweddaraf ar reoli a thrin MS, ac yn asesu'r tueddiadau epidemiolegol mewn MS yng Nghymru. Nid yw'r amserlenni ar gyfer yr adolygiad hwn wedi'u pennu eto.



## **8. £4.9 Miliwn ar gyfer Cyfnod Cyntaf yr Ysbyty Plant**

### **Cyfnod 1**

8.1 Roedd Cyfnod 1a yn cynnwys ailddarparu cyfleusterau hynafol ar ward y plant yn Ysbyty Athrofaol Cymru. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys adeiladu prif fynedfa a derbynfa newydd, dwy ward feddygol 25 gwely a llety atgyfeirio ar gyfer swît oncoleg bediatrig yn cynnwys ward, uned gofal dydd, cyfleusterau cleifion allanol a llety wedi'i neilltuo i rieni. Cyllidwyd cost cyfalaf y Cyfnod hwn (£4.5m) gan Apêl Arch Noa.

8.2 Roedd Cyfnod 1b yn cynnwys y gwaith o drosglwyddo gwasanaethau oncoleg bediatrig, meddygaeth gyffredinol ac orthopedeg o Ysbyty Llandochau i'r uned newydd yn Ysbyty Athrofaol Cymru a'r gwaith o ddatblygu Canolfan Asesu Plant newydd i gyd-fynd â'r Ganolfan Blant gyfredol yn Ysbyty Llandochau. Mae'r Ganolfan hon yn ehangu clinigau i gleifion allanol ar gyfer gwasanaethau cyffredinol ac arbenigol i blant ac yn darparu gwasanaethau cymunedol i blant, uned archwiliadau clinigol ac asesiadau mynediad brys i blant. Cyllidwyd cost cyfalaf o £4.9m ar gyfer Cyfnod 1b gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (rhannwyd hyn rhwng £3.447m ar gyfer Ysbyty Athrofaol Cymru ac £1.453m ar gyfer Ysbyty Llandochau).

## 9. Y Diweddaraf am Barcio a Ffonau

### Parcio

9.1 Mae dros 120 o safleoedd gyda chyfleusterau parcio yn y pedair ar ddeg o Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru. Mae yna wahaniaethau mawr rhwng ac oddi mewn i Ymddiriedolaethau mewn perthynas â ffioedd parcio, er enghraifft:

- Mae rhai Ymddiriedolaethau'n darparu parcio am ddim ar rai safleoedd ond yn codi tâl ar safleoedd eraill.
- Mae gan rai ffioedd/trefniadau gwahanol ar gyfer staff.
- Mae rhai yn gostwng y tâl ar gyfer cleifion ag apwyntiadau rheolaidd.
- Mae rhai Ymddiriedolaethau'n codi ffioedd gwahanol ar yr un safle.

9.2 Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru ar hyn o bryd yn pennu canllawiau ar gyfer Ymddiriedolaethau'r GIG ar fater ffioedd parcio ar safleoedd ysbytai. Cyfrifoldeb pob Ymddiriedolaeth GIG yw penderfynu'n lleol ar y mater hwn, a materion gweithredol eraill.

9.3 £4,103,895 oedd incwm gros Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru sy'n codi tâl am barcio yn 2005/06. Mae'r daenlen amgaeedig yn dangos y manylion llawn fesul Ymddiriedolaeth, a'r rhaniad rhwng ffioedd staff/ymwelwyr lle'n bosibl.

### Incwm o Alwadau Ffôn

9.4 Mae gwybodaeth yn cael ei chasglu ar hyn o bryd am incwm Ymddiriedolaethau o daliadau am alwadau ffôn. Dyma'r wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd:

Ymddiriedolaeth	£/y flwyddyn
Felindre	0
Sir Gaerfyrddin	3,405
Ceredigion a'r Canolbarth	6,644
Powys	6,900
Sir Benfro	11,741

9.5 £48,000 oedd cyfanswm incwm Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro o daliadau am alwadau ffôn o bob ffynhonnell. Fodd bynnag, mae hyn yn cynnwys taliadau a wnaed gan staff ar gyfer galwadau ffôn preifat (llinellau tir a ffonau symudol), a'r gost i BILl Caerdydd am y system ffôn yn Nhrenewydd.

9.6 Mae Caerdydd a'r Fro hefyd yn derbyn comisiwn neu freindaliadau gan eu darparwr gwasanaeth, felly hefyd Siroedd Conwy a Dinbych, Gwent, Gogledd Orllewin Cymru a Phontypridd a'r Rhondda. Ceisir gwybodaeth ar hyn o bryd am faint o arian a dderbyniwyd a sail y taliadau, ee nifer y galwadau, tâl unffurf neu drefn arall.

9.7 Ceisir gwybodaeth ar gyfer:

Bro Morgannwg

Gogledd Ddwyrain Cymru

Gogledd Morgannwg

Abertawe

9.8 Bydd y gwaith o gasglu gwybodaeth yn parhau, a bydd fy Adroddiad nesaf i Weinidogion a fydd yn dod gerbron y Pwyllgor yn cynnwys mwy o fanylion.

### Trust income (not revenue) 2005/6 from car parking.

The below are Trust wide figures and therefore could include a number of sites, each with different parking arrangements. If a Trust has a PFI/PPP arrangement on one or more sites the income will not be included below as it is not income to the Trust.

Trust Name	Total parking spaces available (1) (No)	Total disabled parking spaces (2) (No)	Total parking spaces available for patients/visitors (3) (No)	Total parking spaces available for staff (4) (No)	Income from staff (5) (£)	Income from visitors (6) (£)
Bro Morgannwg NHS Trust	3,386	136	1,732	1,717	157,722.00	535,369.00
Cardiff & Vale NHS Trust	5,268	264	3,199	2,715	188,247.00	121,379.00
Carmarthenshire NHS Trust	1,693	52	644	1,049	0.00	225,020.00
Ceredigion & Mid Wales NHS Trust	374	21	229	204	0.00	11,186.00
Conwy & Denbighshire NHS Trust	2,394	100	1,235	1,059	0.00	0.00
Gwent Healthcare NHS Trust	4,206	165	1,642	2,538	284,912.00	508,431.00
North East Wales NHS Trust	2,451	116	2,371	466	26,443.00	235,526.00
North Glamorgan NHS Trust	1,605	76	1,446	1,595	0.00	0.00
North West Wales NHS Trust	2,524	137	2,122	1,612	0.00	121,000.00
Pembrokeshire & Derwen NHS Trust	1,570	95	669	778	0.00	50,000.00
Pontypridd & Rhondda NHS Trust	2,048	96	653	1,299	55,816.00	289,739.00
Powys Healthcare NHS Trust	886	71	753	621	0.00	0.00
Swansea NHS Trust	4,243	221	1,607	2,682	284,822.00	1,003,783.00
Velindre NHS Trust	758	33	204	535	4,500.00	0.00
	<b>33,406</b>	<b>1,583</b>	<b>18,506</b>	<b>18,870</b>	<b>1,002,462.00</b>	<b>3,101,433.00</b>

#### Car Parking – Data definitions

Field	Unit	Value	Definition
1.Total parking spaces available	No.		Total number of car parking spaces available for use within the organisation's grounds. This should be the combined total number of disabled, patients, visitors and staff parking places for all of the organisation's occupied sites. Exclude residential parking
2. Total Disabled parking spaces.	No.		Total number of disabled car parking spaces available within the organisational grounds for disabled staff and visitors.
3. Total parking spaces available for patients/visitors	No.		Total number of car parking spaces available for use by patients and visitors within the organisational grounds, inclusive of relevant disabled parking spaces.
4. Total parking spaces available for staff	No.		Total number of car parking spaces available for use by staff within the organisational grounds, inclusive of relevant

			disabled parking spaces.
5. Income from staff	£		Annual gross income in £'s from all staff parking spaces within the organisation grounds.
6. Income from visitors	£		Annual gross income in £'s from all visitors parking spaces within the organisation grounds.

## **10. Y Defnydd o Gyfleusterau Gwesty ar gyfer Cleifion sy'n cael Trawsblaniadau Mêr Esgyrn**

10.1 Yng nghyfarfod y Cyngor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 26 Hydref, nodwyd bod Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro'n treialu'r defnydd o gyfleusterau gwesty ar gyfer cleifion sy'n cael trawsblaniadau mêr esgyrn. Mynegwyd pryder y gallai cleifion fod yn agored i heintiau o ganlyniad.

10.2 Gallaf gadarnhau bellach bod Ysbyty Athrofaol Cymru wedi cymryd dwy ystafell bwrpasol yng Ngwesty'r Moat House ar sail cynllun prawf am dri mis ar gyfer cleifion sy'n cael trawsblaniadau. Defnyddir y model hwn o wasanaeth gan unedau eraill yn Lloegr, ac mewn mannau eraill o'r byd. Mae cleifion sy'n defnyddio eu celloedd eu hunain ar gyfer trawsblaniadau llai cymhleth yn aros mewn gwesty ar ôl gwella o'r trawsblaniad neu yn ystod cyfnod y trawsblaniad ei hun. Caiff deiet arbennig ei baratoi ar gyfer y cleifion, mae gan y ddwy ystafell lanhawyr dynodedig, mae'r arbenigwraig nyrs glinigol yn ymweld bob dydd neu mae'r claf yn ymweld â'r ysbyty. Mae yna brotocolau clir ar gyfer y gwesty/claf ynghylch beth i'w wneud mewn argyfwng.

## **11. Y Diweddaraf am Ganllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol Dros Ragoriaeth Glinigol (NICE) ar sut i Drin Clefyd Alzheimer**

11.1 Ar 17 Rhagfyr, cyhoeddodd dau o'r cwmnïau cyffuriau sy'n cynhyrchu donepezil (aricept), un o'r cyffuriau a arfarnwyd gan NICE ar gyfer Clefyd Alzheimer, eu bod yn bwriadu herio penderfyniad NICE yn y llys, ar y sail bod y broses yn arwain at y canllawiau'n annheg. Byddaf yn hysbysu'r pwyllgor am ddyfarniad y gwrandawriad maes o law.

11.2 Cyhoeddodd NICE ei ganllawiau terfynol ar gyffuriau ar gyfer Clefyd Alzheimer ar 22 Tachwedd, i gyd-fynd â'i ganllawiau clinigol ar reoli demensia, gan gynnwys Clefyd Alzheimer.

## 12. Rhoi Organau: Hawliau Newydd i Roddwyr

12.1 Am y tro cyntaf erioed, mae Deddf Meinweoedd Dynol 2004 (Deddf HT), a weithredwyd yn llawn ar 1 Medi 2006, yn rhoi'r brif flaenoriaeth i ddymuniadau'r ymadawedig.

12.2 Os yw'r ymadawedig wedi mynegi dymuniad i roi organau i'w defnyddio ar ôl marw, mae dymuniadau'r ymadawedig yn cael blaenoriaeth dros ddymuniadau'r teulu neu ffrindiau, ac mae'r Ddeddf HT bellach yn ei gwneud yn gyfreithlon tynnu'r organau hynny, hyd yn oed os nad yw perthnasau'r ymadawedig am i hynny ddigwydd – er fe all amgylchiadau godi lle nad yw hyn yn ddoeth\*

12.3 Sicrhau bod caniatâd wedi'i roi yw'r cam cyfreithiol cyntaf wrth dynnu, storio a defnyddio meinwe dynol ar ôl marwolaeth ar gyfer trawsblaniadau.

12.4 Mae'r Ddeddf HT hefyd yn ei gwneud yn gyfreithlon cymryd y camau gofynnol i ddiogelu organau unigolyn sydd wedi marw i'w defnyddio mewn trawsblaniadau nes bod gwybodaeth am ei ddymuniad i roi organau yn hysbys; neu, os nad yw ei ddymuniadau'n hysbys, i gael caniatâd gan berthynas agos.

12.5 Dylai'r caniatâd dan y Ddeddf Meinweoedd Dynol i ddiogelu organau ar ôl marwolaeth nes bod dymuniadau'r rhoddwr posibl yn hysbys sicrhau bod mwy o organau ar gael gan roddwyr sydd wedi marw.

*[\* Os yw'r teulu neu'r rhai sy'n agos at yr ymadawedig yn gwrthwynebu rhoi'r organau, am ba bynnag reswm, pan fo'r ymadawedig (neu ei gynrychiolydd enwebedig) wedi cydsynio i hynny, dylai clinigwyr geisio trafod y mater gyda nhw mewn ffordd sensitif. Dylid eu hannog i dderbyn dymuniadau'r ymadawedig a'u hysbysu nad oes ganddyn nhw'r hawl gyfreithiol i roi fetu ar, neu newid y dymuniadau hynny. Serch hynny, gall achosion godi lle nad yw rhoi organau'n briodol, a dylid ystyried pob achos yn unigol. Os nad yw unigolyn sydd wedi marw'n nodi ei ddymuniadau yn ffurfiol, gofynnir i'r unigolyn sydd agosaf ato beth fyddai dymuniadau'r ymadawedig wedi bod.]*

**Ffynhonnell: Briff yr Awdurdod Meinweoedd Dynol 30.8.06**



### **13. Cyngor Da: Iechyd Da**

13.1 Mae'r Cynulliad yn parhau i ddarparu £700,000 o gyllid rheolaidd i Gymdeithas Genedlaethol Cyngor ar Bopeth (NACAB) ar gyfer y fenter Cyngor Da: Iechyd Da.

13.2 Mae'r fenter yn galluogi Meddygon Teulu i atgyfeirio cleifion sydd angen cyngor ar fudd-daliadau a gwasanaethau gofal cymdeithasol i gynghorwyr arbenigol NACAB. Prif amcanion y cynllun yw:

- (a) cynyddu nifer y bobl sy'n derbyn budd-daliadau;
- (b) gwella lefelau incwm pobl dlotach; a
- (c) lleihau'r amser a dreulir gan Feddygon Teulu yn ymdrin ag ymholiadau anfeddygol.

13.3 Mae Cymdeithas Genedlaethol Cyngor ar Bopeth yn gweithredu'r cynllun trwy brosiectau ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol mewn partneriaeth â grwpiau iechyd lleol, cyrff gwirfoddol a buddiannau gofal sylfaenol. Dyma brif lwyddiannau'r cynllun yn 2005-06:-

- Rhwng mis Ebrill - Rhagfyr 2006 hawliwyd £2,280,653m;
- Llwyddodd gwasanaethau ledled Cymru i ragori ar dargedau ar gyfer nifer y cleientiaid a gafodd eu gweld a chyfanswm y budd-daliadau a hawliwyd.

13.4 Mae Rheolwr y Prosiect hefyd wedi cyfarfod â chynrychiolwyr Canolfan Iechyd Cymru, sydd wedi'i chomisiynu gan y Cynulliad i ymchwilio i'r berthynas rhwng dyled ac iechyd.

**Brian Gibbons AC**

**Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**